## Uned Ymchwil Gwarchod Iechyd mewn Parodrwydd ac Ymateb i Argyfwng

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn ieithoedd eraill ac fel fersiwn Hawdd i'w Darllen yma: https://epr.hpru.nihr.ac.uk/HPRU3

Arweinir ein Huned gan dîm o Goleg King's, Llundain, ac y mae'n cynnwys ymchwilwyr o Brifysgol East Anglia ac Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA). Mae tair thema i'r ymchwil. Yr ydym wedi gweithio gydag UKHSA i ddewis prosiectau ar gyfer y themâu hyn fydd yn helpu UKHSA i warchod iechyd pobl mewn argyfyngau. Mae ein themâu, a'r prif gwestiynau y byddant yn eu hateb, yn cael eu disgrifio isod.

### Parodrwydd am Argyfwng:

1. Pan fydd argyfyngau'n codi, sut y dylai UKHSA esbonio beth mae angen i bobl wneud? Beth yw'r ffyrdd gorau i gyfleu hyn i bobl o grwpiau lleiafrifol neu sydd â chyflyrau iechyd?
2. Allwn ni ddatblygu ffyrdd o helpu UKHSA i ddeall y problemau mae pobl yn wynebu yn ystod argyfwng yn y dyfodol?
3. Sut mae modd cynnal iechyd meddwl staff sy'n ymateb i argyfwng, yn enwedig pan fyddant yn wynebu ymosodiadau yn y wasg, ar y cyfryngau cymdeithasol neu wyneb yn wyneb?
4. Sut gall UKHSA hyfforddi pobl o asiantaethau gwahanol i weithio gyda'i gilydd yn ystod argyfwng?

### Data a Gwybodaeth:

1. Sut gall UKHSA wneud defnydd o'r holl ddata y gall gyrchu yn ystod argyfwng? Fyddai modd defnyddio arfau deallusrwydd artiffisial, i grynhoi data yn sydyn a chanfod unrhyw batrymau?
2. Sut y dylid cyflwyno gwybodaeth i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, i'w helpu i ddod i benderfyniad yn gyflym?
3. Allai UKHSA ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i gyflymu'r ffordd maent yn gwneud crynodeb o bapurau o'r llenyddiaeth wyddonol, a'u helpu i roi crynodeb teg o'r holl dystiolaeth i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau?
4. A oes ffyrdd o ddweud a fydd y camau a gymerir gan UKHSA yn debygol o weithio yn ystod argyfwng, yn enwedig pan na fu llawer o astudiaethau gwyddonol yn ei gylch?

### Parodrwydd am Bandemig

1. Pa negeseuon sy'n helpu pobl i ddeall, yn ystod pandemig, y gall fod angen i chi weithredu ar symptomau hyd yn oed os mai rhai ysgafn ydynt, er enghraifft trwy hunan-ynysu?
2. Beth yw'r ffyrdd gorau i UKHSA ganfod faint o bobl sy'n dilyn eu cyngor yn ystod pandemig?
3. Sut gall UKHSA helpu pobl sy'n gweithio gydag anifeiliaid fferm i gymryd camau i atal y ffliw rhag pasio o anifeiliaid i fodau dynol?
4. A yw sgrinio teithwyr mewn meysydd awyr yn helpu i atal pobl rhag cludo heintiau i mewn i'r DU?
5. Allwn ni grynhoi effeithiau cadarnhaol a negyddol y mesurau y gall UKHSA eu hargymell mewn pandemig, i helpu'r sawl sy'n llunio polisi i wneud penderfyniadau anodd?

Bydd rhywun o UKHSA yn gwirio pob prosiect, er mwyn gwneud yn siwr y bydd y canlyniadau o fudd iddynt. Byddwn yn dwyn i mewn aelodau'r cyhoedd i bob prosiect, gan gymryd cyngor wrth i'r gwaith fynd rhagddo ynghylch pa gwestiynau i'w gofyn, sut i gynnal pob astudiaeth, a sut i sicrhau y bydd y canlyniadau yn cael eu hesbonio'n glir. Bydd y rhan fwyaf o brosiectau yn edrych i weld pam bod tuedd i bobl o rai cymunedau neu grwpiau ddioddef effeithiau argyfyngau yn waeth nag eraill, a sut y gall UKHSA newid hyn. Yn olaf, byddwn yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i bawb sy'n rhan o'n gwaith, i'w helpu i wneud mwy o ymchwil o safon uchel yn y dyfodol.